# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Ionawr 2021

Amser: 09.03 - 12.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11046

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Jayne Bryant AS<br>Angela Burns AS<br>Lynne Neagle AS<br>David Rees AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Jean White, Llywodraeth Cymru<br>Dr Tracey Cooper, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Dr Giri Shankar, Iechyd Cyhoeddus Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Dr Robin Howe, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Rebekah James (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Andrew RT Davies AS am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor a chroesawodd Angela Burns AS i'r Pwyllgor.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog a’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru.

3.2 Cytunodd Dr Tracey Cooper i rannu â’r Pwyllgor gopi o adroddiad tueddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru o’i arolwg ymgysylltiad cyhoeddus pan fydd ar gael.

3.3 Cytunodd Dr Giri Shankar i ddarparu manylion yr amserlen fonitro ar gyfer effeithiolrwydd brechlynnau COVID-19 (gan gynnwys yr amser rhwng y dos cyntaf a'r

ail ddos y mae unigolyn yn ei gael), ac i amlinellu rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y broses fonitro.

3.4 Cytunodd Dr Tracey Cooper i rannu â’r Pwyllgor Arolygon Neges Destun ynghylch Hyder mewn Ymlyniad Cysylltiadau (ACTS) diweddar i ddangos sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd sy'n rheoli ac yn cydlynu Profi, Olrhain, Diogleu a'r system olrhain cysylltiadau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar fân ddiwygiadau a gytunir drwy’r e-bost.